# Cynllun Pensiwn Athrawon – Cytundeb Terfynol Arfaethedig

1. Mae'r ddogfen hon yn cyflwyno'r cynnig terfynol arfaethedig ar ddyluniad y cynllun ar gyfer y Cynllun Pensiwn Athrawon diwygiedig a gyflwynir yn 2015. Mae'r Llywodraeth wedi datgan mai dyma eu safbwynt terfynol ar ddyluniad y cynllun, y mae'r undebau wedi cytuno i'w gyflwyno i'w Cyrff Gweithredol yn dilyn y trafodaethau ar ddyluniad y cynllun. Mae hyn yn cynnwys ymroddiad i geisio cytundeb y Cyrff Gweithredol i roi'r gorau i unrhyw weithredu diwydiannol ar ddiwygio pensiwn. Mae dyluniad y cynllun a amlinellir yn y Cytundeb terfynol arfaethedig hwn yn amodol ar dderbyn y Cytundeb hwn.

Mae hwn yn Gytundeb terfynol arfaethedig sy'n adlewyrchu casgliadau'r trafodaethau ar y manylion terfynol gydag undebau athrawon ers i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud ei Ddatganiad Gweinidogol Ysgrifenedig ar ddiwygio pensiynau, ar 20$^{fed}$ Rhagfyr 2011.

2. Darperir prif baramedrau'r cynllun newydd isod.

a. dyluniad cynllun pensiwn yn seiliedig ar gyfartaledd gyrfa;
b. cyfradd groniadol o 1/57$^{fed}$ enillion pensiynadwy bob blwyddyn;
c. ail-werthuso buddion aelodau gweithredol yn unol â CPI + 1.6%;
d. Oedran Pensiwn arferol cyfartal i Oedran Pensiwn y Wladwriaeth, sy'n berthnasol i aelodau gweithredol ac aelodau gohiriedig (gwasanaeth cynllun newydd yn unig). Os bydd OPW aelod yn codi, yna bydd OPA yn gwneud hynny hefyd ar gyfer pob gwasanaeth ar ôl 2015;
e. y pensiynau a delir i gynyddu yn unol â'r Mynegai Prisiau (CPI ar hyn o bryd);
f. buddion a enillwyd wrth ohirio i gynyddu yn unol â'r CPI;
g. cyfartaledd cyfraniadau aelod o 9.6%, gyda rhywfaint o ddiogelwch ar gyfer y rhai ar y cyflogau isaf (yn amodol ar y trefniadau manwl ar gyfer penderfynu ar strwythur cyfraniadau yn y dyfodol a ddangosir yn Atodiad A);

h. cymudiad cyfandaliad dewisol ar gyfradd o 12:1, yn unol â therfynau a rheoliadau Cyllid a Thollau EM;
i. pensiwn priod / partner yn unol â darpariaethau presennol;
j. cyfandaliad ar farwolaeth mewn gwasanaeth o 3 gwaith cyflog cyfwerth ag amser llawn;
k. budd-daliadau afiechyd fel y rhai yn y cynllun agored presennol;
l. ffactorau ymddeol yn gynnar/ hwyr yn actiwaraidd deg ar sail cost niwtral heblaw am y rhai sydd â OPA dros 65 oed a fydd â ffactorau ymddeol yn gynnar o 3% y flwyddyn ar gyfer uchafswm o 3 blynedd mewn perthynas â'r cyfnod o 65 oed i'w OPA;
m. cyfyngiad cost i gyflogwr i ddarparu diogelwch ôl-stop i'r trethdalwr yn erbyn costau annisgwyl a risgiau (gweler paragraff 5 isod ac Atodiad B);
n. bydd y clwb trosglwyddo sector cyhoeddus yn parhau, a rhoddir ystyriaeth i'r dull gorau o weithredu yn y cynlluniau diwygiedig;
o. trefniadau ymddeol fesul cam sy'n adlewyrchu'r rhai hynny yn y cynllun presennol, gyda'r opsiwn ychwanegol o drydydd alldyniad budd-daliadau ar ôl pen-blwydd yr aelod yn 60;
p. ni fydd diddymiad yn berthnasol i wasanaeth yn y CPA diwygiedig. Bydd rheolau atal ar gyfer y cynllun presennol yn aros yr un fath;
q. bydd aelodau sy'n gadael y cynllun ac yn dychwelyd o fewn 5 mlynedd yn sicrhau bod eu gwasanaeth cronedig yn y cynllun presennol (OPA 60/65) yn gysylltiedig â'u cyflog terfynol wrth ymddeol;
r. hyblygrwydd i alluogi aelodau i ddewis talu cyfradd cyfraniad uwch yn gyfnewid am gyfradd croniad uwch ar gyfer blwyddyn benodol, yn ôl eu cost aelod llawn, o fewn terfynau presennol ar bensiwn ychwanegol; a
s. bydd gan aelodau sydd ag oedran pensiwn arferol mwy na 65 yn y cynllun newydd, yn cael dewis yn y cynllun newydd i dalu cyfraniadau ychwanegol i leihau neu, mewn rhai achosion, cael gwared ar unrhyw ostyngiad ymddeol yn gynnar a fyddai'n berthnasol, os byddant yn ymddeol cyn eu hoed pensiwn arferol. Dim ond gostyngiadau a fyddai'n gymwys mewn perthynas â blynyddoedd ar ôl 65 oed a ellir eu prynu'n llwyr ac uchafswm y gostyngiad y gellir eu prynu'n llwyr

yw am 3 blynedd (byddai'n berthnasol i aelod sydd ag Oedran Pensiwn Arferol o 68 neu uwch).

3. Sefydlodd y Llywodraeth y nenfwd cost gros o 21.7% a'r nenfwd cost net o 12.1% yn *Public Service Pensions: good pensions that last*, Cm8214. Yn Atodiad E i'r Cytundeb terfynol arfaethedig hwn, darperir adroddiad gan actwari'r cynllun yn cadarnhau bod dyluniad y cynllun arfaethedig uchod o fewn y nenfwd cost. Paratowyd yr adroddiad hwn yn unol â'r cyngor yn adroddiad Adran Actwari'r Llywodraeth ar 7 Hydref 2011: *Cost ceilings for scheme level discussions: Advice on data, methodology and assumptions*.

4. Mae dyluniad y cynllun wedi cael ei adolygu gan Drysorlys EM sydd wedi cytuno'r dull a ddefnyddir i reoli risg.

5. Mae'r cytundeb terfynol arfaethedig hefyd yn cwmpasu'r trefniadau ar gyfer cyfyngiad cost cyflogwyr, y driniaeth o OPA yn dilyn newidiadau pellach i OPW, a gwarant o 25 mlynedd. Nodir y rhain yn fanylach yn Atodiad B.

6. Yn ogystal, ynghlwm yn Atodiad C mae nodyn costau polisi yn amlinellu trefniadau a fydd yn sicrhau nad yw aelodau sydd, o'r 1 Ebrill 2012 ymlaen, â 10 mlynedd neu lai i'w hoedran pensiwn presennol, yn gweld unrhyw newid o ran pryd y byddant yn ymddeol, nac unrhyw ostyngiad yn faint o bensiwn maent yn ei dderbyn ar eu hoedran Pensiwn Arferol presennol. Mae'r nodyn yn gosod asesiad cyfreithiol y polisi yn ogystal â'r data, y fethodoleg a'r rhagdybiaethau a ddefnyddir i benderfynu nad yw cyfanswm gwariant arian yn ystod ac ymhob blwyddyn yn uwch ar gyfer y grŵp a ddiogelir nag y byddai wedi bod petai na fyddai unrhyw ddiwygio wedi digwydd.

7. Bydd aelodau sydd o fewn 3.5 blynedd pellach o'u Hoedran Pensiwn Arferol, h.y. hyd at 13.5 o flynyddoedd o'u OPA, yn cael amddiffyniad cyfyngedig gyda lleihad llinol fel eu bod yn colli 2 fis o amddiffyniad am bob mis o'u hoed y maent y tu hwnt i 10 mlynedd o'u hoedran pensiwn

arferol. Ar ddiwedd y cyfnod gwarchodedig, byddant yn cael eu trosglwyddo i'r trefniadau pensiwn newydd.

8. Ar sail bod y dyluniad cynllun hwn yn cael ei gytuno, mae'r Llywodraeth yn cytuno i gadw darpariaeth Bargen Deg ac ymestyn mynediad i gynlluniau pensiwn y gwasanaeth cyhoeddus ar gyfer trosglwyddo staff. Mae hyn yn golygu y bydd yr holl staff y mae eu cyflogaeth yn cael ei drosglwyddo'n orfodol o ysgolion a gynhelir (gan gynnwys academïau), sefydliadau addysg uwch a phellach o dan TUPE, gan gynnwys trosglwyddiadau TUPE dilynol, yn dal i allu cadw aelodaeth o'r Cynllun Pensiwn Athrawon pan fyddant yn trosglwyddo. Bydd y trefniadau hyn yn disodli'r darpariaethau presennol ar gyfer swmp drosglwyddo dan y Fargen Deg, na fydd yn gymwys mwyach. Mae penderfyniad y Llywodraeth ar y Fargen Deg yn golygu, yn amodol ar gytundeb ar ddiwygio'r cynllun, y bydd ysgolion annibynnol sydd eisoes yn cael mynediad at Gynllun Pensiwn Athrawon yn parhau i wneud hynny (ar gyfer athrawon presennol a newydd); a bydd athrawon newydd ac ysgolion annibynnol yn parhau i fedru ymuno â'r cynllun o dan y meini prawf cymhwyso presennol.

9. Bydd Asesiad Effaith Cydraddoldeb (AEC) o ddyluniad y cynllun hwn yn cael ei wneud yn unol â dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus, yn a149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae hyn yn gosod gofynion ar gyrff cyhoeddus i:

- roi sylw dyledus i'r angen i ddileu gwahaniaethu;
- hyrwyddo cyfle cyfartal; a
- meithrin cysylltiadau da rhwng gwahanol bobl wrth gyflawni eu gweithgareddau.

Mae rhagor o fanylion yn cael eu cynnwys yn Atodiad D.

**ATODIAD A: Cynnydd Cyfraniad**

Yn dilyn adolygiad Comisiwn Annibynnol Pensiynau'r Gwasanaeth Cyhoeddus (IPSPC) o gynlluniau pensiwn y gwasanaeth cyhoeddus, cyhoeddodd y Llywodraeth ofyniad i wneud arbedion o £ 2.8 biliwn dros dair blynedd drwy gynyddu cyfraniadau i bensiynau sector cyhoeddus.

Ym mis Gorffennaf 2011 agorodd yr Adran ymgynghoriad i ystyried y cynnydd mewn cyfraniadau ar gyfer 2012-13. Daeth yr ymgynghoriad i ben ym mis Hydref 2011 a chyhoeddwyd ymateb yr Adran ar 16 Rhagfyr 2011. Mae'r tabl isod yn dangos y cyfraddau cyfrannu i'w gweithredu o 1 Ebrill 2012. Bydd manylion strwythur y cyfraniadau wedi 2012 yn amodol ar drafodaeth gyda'r undebau.

| Cyflog Isaf | Cyflog Uwch | Cyfradd Cyfraniad yn 2012-13 | Cynnydd (yn erbyn 6.4%) | Aelodaeth | % o aelodau |
|---|---|---|---|---|---|
| | 14,999 | 6.4% | 0% | 1400 | 0.2% |
| 15,000 | 25,999 | 7.0% | 0.6% | 116,000 | 17.1% |
| 26,000 | 31,999 | 7.3% | 0.9% | 117,000 | 17.2% |
| 32,000 | 39,999 | 7.6% | 1.2% | 271,000 | 39.6% |
| 40,000 | 74,999 | 8.0% | 1.6% | 172,000 | 25.2% |
| 75,000 | 111,999 | 8.4% | 2.0% | 4000 | 0.6% |
| 112,000 | | 8.8% | 2.4% | £600 | 0.1% |

<u>Cynnydd Cyfraniadau ar gyfer 2013-14 a 2014-15</u>

Bydd cyfraniadau cyflogeion yn cynyddu o 1 Ebrill 2012 i adlewyrchu canlyniad yr ymgynghoriad diweddar gan yr Adran Addysg. Mae'r Adran wedi cynnig nifer o strwythurau haenu posibl ar gyfer y ddwy flynedd ddilynol. Bydd unrhyw strwythurau haenu o'r fath yn cael eu trafod gan yr Adran ac undebau yng ngoleuni profiad o raglenni eithrio, ymddygiad aelodau arall ac amgylchiadau sy'n newid. Bydd data a gwybodaeth berthnasol yn cael eu casglu i lywio adolygiad y Llywodraeth o strwythurau haenu cyn i'r Adran ymgynghori ar gynnydd cyfraniadau ar gyfer 2013-14 ymlaen. Bydd yr wybodaeth yn cynnwys

data ar eithrio o'r system a hefyd asesiad o ymddygiad a ddisgwylir gan aelodau mewn ymateb i gynnydd pellach mewn cyfraddau cyfraniadau. Bydd y gwaith hwn yn cael ei ddatblygu yng nghyd-destun ystyriaeth ehangach y Llywodraeth o strwythurau haenu ar draws cynlluniau pensiwn gwasanaeth cyhoeddus.

Bydd yr ystyriaeth o strwythurau haenu ar gyfer 2013-14 a 2014-15 yn adlewyrchu'r blaenoriaethau a rennir gan y Llywodraeth a'r undebau ar gyfer y strwythurau hynny, a dylent:

gynnwys diogelwch ar gyfer y rhai ar gyflogau isel,

leihau'r risg o raglenni eithrio o'r cynllun ar draws yr aelodaeth gyfan, gan gynnwys, er enghraifft, athrawon newydd gymhwyso a darlithwyr a gweithwyr rhan-amser; a

sicrhau bod y cynllun yn parhau i fod yn gynaliadwy, yn rhan werthfawr o gydnabyddiaeth athrawon a darlithwyr, ac yn fforddiadwy i bob aelod.

Bydd ystyriaeth yn cael ei roi i'r achos o blaid ac yn erbyn strwythur haenu blaengar hefyd.

Bydd yr adolygiad a'r ymgynghoriad yn cael ei lywio gan wybodaeth sydd ar gael ar brofiad ar draws yr holl gynlluniau gwasanaeth cyhoeddus perthnasol. Bydd y strwythur haenu ar gyfer 2013-14 a 2014-15 yn amodol ar:

- yr adolygiad o eithrio y cyfeiriwyd ato uchod, y bydd undebau a phartïon eraill â diddordeb yn bwydo i mewn iddo; a
- y gofyniad i fodloni ymrwymiadau adolygiad gwariant y Llywodraeth yn 2013-14 a 2014-15 ar draws cynlluniau pensiwn gwasanaeth cyhoeddus heb eu hariannu.

<u>Cyfraddau Cyfraniad ar gyfer 2015 ymlaen</u>

Bydd yr Adran a'r undebau yn cynnal adolygiad ar wahân a phellach i benderfynu ar y strwythur cyfradd cyfraniadau i fod mewn grym o 1 Ebrill 2015. Bydd cwmpas yr adolygiad yn ymdrin â'r meysydd allweddol i'w hystyried a nodir uchod (h.y. ar gyfer haenau 2013-14 a 2014-15 ) a bydd yn sicrhau bod y strwythur yn darparu'r cyfraniad aelod cyfartalog o 9.6%. Bydd

hefyd yn ystyried y gwahaniaethau rhwng cynlluniau cyn 2015 ac ar ôl 2015, gan roi sylw i ffactorau megis cadw cysylltiad â'r cyflog terfynol ar gyfer gwasanaeth cronedig a'r diogelwch 10 mlynedd.

Bydd yr adolygiad yn adlewyrchu ymddygiad aelod, yn enwedig mewn perthynas â thynnu'n ôl ers cyflwyniad y cyfraniadau haenog a bydd yn adeiladu ar yr adolygiad blaenorol. Bydd yr Adran yn cynnal asesiad effaith cydraddoldeb, a fydd yn llywio ymgynghoriad ar y cyfraniadau o 2015 ymlaen.

**ATODIAD B**

Cynnydd y dyfodol i OPW

1. Safbwynt y Llywodraeth yn y cynllun newydd yw, ar gyfer croniadau pensiwn ôl-2015, y dylai Oedran Pensiwn Arferol gael ei osod yn gyfartal i Oedran Pensiwn y Wladwriaeth. Bydd hyn yn golygu y bydd gan bob aelod Oedran Pensiwn Arferol unigol yn dibynnu ar eu dyddiad geni, ac os bydd OPW aelod yn codi, yna bydd eu OPA yn gwneud hynny hefyd, ar gyfer pob gwasanaeth ôl 2015.

2. Fel yr argymhellwyd gan yr Arglwydd Hutton, bydd y Llywodraeth yn cadw golwg ar y cysylltiad rhwng Oedran Pensiwn Arferol yn y cynlluniau gwasanaeth cyhoeddus ac Oedran Pensiwn y Wladwriaeth i benderfynu a yw'r cysylltiad rhwng y ddau yn parhau i fod yn briodol.

3. Fel y nodir yn Natganiad Hydref 2011, bydd unrhyw gynnydd yn y dyfodol yn Oedran Pensiwn y Wladwriaeth yn seiliedig ar dystiolaeth ddemograffig. Bydd y Llywodraeth yn trafod ymhellach y broses y gellid ei sefydlu i ganiatáu ystyriaeth i farn cyfranogwyr pan fydd y penderfyniadau hyn yn cael eu gwneud.

4. Barn y Llywodraeth yw, os ceir newidiadau pellach i Oedran Pensiwn y Wladwriaeth, bydd cysylltiad awtomatig i newid Oedran Pensiwn Arferol aelodau'r cynllun o swm cyfatebol. Mae hyn hefyd yn dilyn argymhellion y Comisiwn Annibynnol ar Bensiynau'r Gwasanaeth Cyhoeddus, i reoli risgiau yn ddigonol i'r trethdalwr rhag gwelliannau pellach i hirhoedledd. Fel y nodir yn y cytundeb terfynol arfaethedig hwn, bydd oedran pensiwn arferol ym mhrif gynlluniau pensiwn y gwasanaeth cyhoeddus yn cael eu gosod yn gyfartal i Oedran Pensiwn y Wladwriaeth. Mae'r Llywodraeth yn credu y dylai OPW barhau i fod yn gyson â chynnydd mewn hirhoedledd i sicrhau tegwch rhwng y cenedlaethau, ac mae'n ystyried y broses a fydd yn cael ei defnyddio i benderfynu ar newidiadau yn y dyfodol i OPW, gan gynnwys unrhyw gynnydd yn OPW neu newidiadau i amseriad cynigion cyfredol ar gyfer newid OPW. Bydd hyn yn seiliedig ar dystiolaeth ddemograffig. Ymgynghorodd yr Adran Gwaith a Phensiynau ar hyn dros yr Haf.

Cyfyngiad Cost Cyflogwr

5. Fel yr argymhellwyd gan yr Arglwydd Hutton, mae'r Llywodraeth yn bwriadu cyflwyno cyfyngiad cost cyflogwr. Byddai hyn yn darparu diogelwch ôl-stop i'r trethdalwr, gan eu hamddiffyn rhag digwyddiadau hynod eithriadol ac annisgwyl sy'n cynyddu costau cynllun yn sylweddol iawn. O ganlyniad, mae'r Llywodraeth yn credu na fydd y cyfyngiad yn debygol iawn o gael effaith yn y 25 mlynedd nesaf.

6. Bwriad y Llywodraeth yw bod y newidiadau i gostau'r cynllun o ganlyniad i 'gostau aelod' yn unig, megis newid dramatig mewn hirhoedledd ac fel y diffinnir gan gyfyngiad blaenorol a threfniadau rhannu, a fydd yn cael eu rheoli gan y cyfyngiad. Byddai pwysau costau ariannol, gan gynnwys newidiadau i'r gyfradd disgownt, yn cael eu talu gan gyflogwyr. Bydd cyfyngiad cost y cyflogwr yn gymesur, felly os oes gostyngiadau mewn costau aelod o'r fath fel bod y gost yn disgyn islaw 'llawr', byddai'r arbedion yn mynd yn ôl i mewn i'r cynllun er budd yr aelodau, megis drwy wella buddiannau aelodau neu ostwng cyfraddau cyfrannu aelod.

7. Bydd prisiadau Cynllun yn digwydd o bryd i'w gilydd i asesu sut mae cost y cynllun wedi cynyddu neu leihau. Os digwydd i gostau aelod yrru cost y cynllun uwchben y cyfyngiad neu o dan y llawr, bydd cyfnod o ymgynghori, cyn y bydd newidiadau yn digwydd er mwyn dod â'r costau o fewn y cyfyngiad a'r llawr. Os na ellir dod i gytundeb drwy ymgynghori, bydd y gyfradd gronni yn cael ei addasu fel diffyg daliad awtomatig.

8. Bydd cyfyngiad cost y cyflogwr yn cael ei osod yn dilyn prisiad actiwaraidd llawn. Bydd y cyfyngiad yn cael ei osod ar 2% yn uwch, a'r llawr yn 2% yn is, na chyfraddau cyfraniad y cyflogwr a gyfrifir cyn cyflwyno'r cynllun newydd yn 2015. Ni fydd y cyfyngiadau yn seiliedig ar nenfydau cost, ond ar y prisiad actiwaraidd llawn. Os daw tystiolaeth newydd i'r amlwg yn ystod y misoedd nesaf am effaith debygol y cyfyngiad, bydd y Llywodraeth yn fodlon ystyried addasu lefel y cyfyngiad a'r llawr.

Gwarant 25 mlynedd

9. Cyflwynodd y Prif Ysgrifennydd gynnig i'r Senedd ar 2 Tachwedd 2011 ar bensiynau gwasanaeth cyhoeddus sy'n deg ac yn gynaliadwy, ac un a all barhau am 25 mlynedd. Golyga hyn nad oes angen am unrhyw newidiadau i ddyluniad cynllun, i fudd-daliadau neu gyfraddau cyfrannu am 25 mlynedd ar wahân i'r prosesau a gytunwyd ar gyfer y cyfyngiad cost. I wireddu hyn, mae'r Llywodraeth yn bwriadu cynnwys darpariaethau yn rhan o'r Mesur Pensiynau Gwasanaethau Cyhoeddus sydd ar y gweill i sicrhau bod safon uchel yn cael ei osod ar gyfer Llywodraethau'r dyfodol i newid dyluniad y cynlluniau. Bydd y Prif Ysgrifennydd hefyd yn rhoi ymrwymiad i'r Senedd o ddim diwygio pellach am 25 mlynedd.

**ATODIAD C:**

**Diogelu Trosiannol - Prif Nodweddion Polisi**

Y bwriad yw y bydd diogelwch trosiannol yn cael ei ddarparu i'r rhai o fewn 13.5 o flynyddoedd o'u OPA ar 1 Ebrill 2012, fel y nodir isod.

Byddai'r holl aelodau yn y cynllun OPA 60 oed presennol sydd yn 50 oed a throsodd ar 1 Ebrill 2012, a phob aelod o gynllun presennol OPA 65 oed sy'n 55 oed neu drosodd ar 1 Ebrill 2012 yn cadw eu hawliau pensiwn presennol (h.y. byddent yn aros yn eu cynllun presennol cyfredol) nes eu bod yn derbyn eu budd-daliadau neu fod yn gymwys i wneud hynny (ac eithrio drwy dderbyn budd-daliadau ymddeol yn raddol). Os digwydd iddynt gael eu hailgyflogi, bydd gwasanaeth y dyfodol yn cronni budd-daliadau yn y CPA diwygiedig.

Byddai aelodau yng nghynllun 60 oed OPA sydd rhwng 46 ½ a 50 oed ar 1 Ebrill 2012 yn aros yn y cynllun presennol ar sail lleihad graddol, h.y. bydd aelod a oedd yn 49 oed ac 11 mis ar 1 Ebrill 2012 yn cadw aelodaeth y cynllun presennol hyd nes 1 Chwefror 2022 (pan fyddent yn 59 mlwydd a 9 mis), ac o'r dyddiad hwnnw byddent yn dechrau cronni gwasanaeth o dan y cynllun diwygiedig. Byddai aelod sydd yn 49 oed a 10 mis ar 1 Ebrill 2012 yn aros yn y cynllun presennol tan 1 Rhagfyr 2021. Byddai'r meinhau hwn yn parhau ar sail linol nes bod aelodau sy'n 46 mlynedd a 7 mis ar 1 Ebrill 2012 yn aros yn y cynllun presennol tan 1 Mehefin 2015. Byddai'r rhai 46½ oed neu iau i gyd yn symud i'r cynllun diwygiedig o 1 Ebrill 2015.

Byddai aelodau yng nghynllun 65 oed OPA sydd rhwng 51 ½ a 55 oed ar 1 Ebrill 2012 yn aros yn eu cynllun presennol ar sail yr un lleihad graddol â'r uchod, ond byddai pob oed a ddyfynnir 5 mlynedd yn fwy, e.e. byddai aelod sydd yn 54 oed ac 11 mis ar 1 Ebrill 2012 yn aros yn y cynllun presennol tan 1 Chwefror 2022.

Mae'r ymagwedd hwn tuag at gyrraedd diogelwch 10 mlynedd yn anrhydeddu amcan PYT, drwy sicrhau nad yw'r aelodau hyn yn gweld unrhyw newid i'r adeg y gallant dderbyn eu budd-daliadau na lefel y budd-daliadau y byddant yn ei dderbyn. Mae'r dull o leihau'n raddol yn sicrhau y bydd y rhai agosaf at 50 oed ar 1 Ebrill 2012 yn derbyn bron yr un lefel o ddiogelwch â'r rhai sydd dros 50 oed a bod y diogelwch yn cael ei ostwng yn gyfartal i aelodau iau hyd nes iddo gyrraedd dim diogelwch ar gyfer y rhai 46½ oed.

## Tybiaethau costio ac ymddygiadol

Drwy gadw aelodaeth o'r cynllun presennol bydd aelodau yn parhau i dderbyn yr un lefel o fudd-daliadau yn ôl yr amcangyfrif presennol. Bydd hyn yn sicrhau na fydd y ffigurau gwariant ar gyfer y 10 mlynedd rhwng 2012-13 yn uwch na'r amcangyfrifon blaenorol, gan y tybir y bydd aelodau yn parhau i ymddeol ar yr un pryd ag y byddent wedi gwneud yn flaenorol.

Am gyfnod o 3.5 mlynedd o 1 Ebrill 2022 bydd aelodau yn dechrau cyrraedd eu OPA presennol (naill ai 60 neu 65 oed) gyda gwasanaeth "cymysg" rhwng y CPA presennol a'r un diwygiedig. Fodd bynnag, bydd y garfan hon o aelodau wedi cronni'r mwyafrif helaeth o'u gwasanaeth o dan y cynllun presennol, gyda dim ond gwasanaeth cyfyngedig o dan y CPA diwygiedig. Tybir felly y bydd yr aelodau hyn naill ai'n dal i dderbyn eu budd-daliadau ar eu OPA presennol (gyda lefel is o fudd-daliadau yn gyffredinol) neu byddant yn parhau i weithio y tu hwnt i'w OPA presennol nes eu bod yn cronni pensiwn a fydd yn weddol gyfartal â'r pensiwn y byddent wedi'i gronni yn 60 oed o dan y cynllun presennol

## Asesiad effaith cychwynnol

Yn seiliedig ar broffil oedran presennol y cynllun (gweler isod), o'r cyfanswm aelodaeth gweithredol o 630k, amcangyfrifir y bydd tua 200k o aelodau yn medru elwa o ddiogelwch 10 mlynedd ac y bydd 60k o aelodau pellach yn elwa o ddiogelwch lleihad graddol.

**<u>Proffil Oedran o aelodau gweithredol fel ar 31 Mawrth 2010</u>**

Data Athrawon ar:
31/03/2010

Proffil Oedran

| | OPA60 Gwryw ALI | OPA60 Gwryw RhA | OPA60 Benyw ALI | OPA60 Benyw RhA | OPA65 Gwryw ALI | OPA65 Gwryw RhA | OPA65 Benyw ALI | OPA65 Benyw RhA | CYFANSWM |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| <21 | 0 | 0 | 0 | 0 | 7 | 92 | 12 | 131 | 242 |
| 21 | 0 | 0 | 0 | 0 | 71 | 119 | 445 | 246 | 881 |
| 22 | 1 | 1 | 2 | 0 | 496 | 205 | 2424 | 622 | 3751 |
| 23 | 3 | 1 | 4 | 1 | 1270 | 307 | 5434 | 894 | 7914 |
| 24 | 42 | 5 | 262 | 28 | 1866 | 376 | 7596 | 1004 | 11,179 |
| 25 | 329 | 12 | 1677 | 103 | 2209 | 387 | 7903 | 1016 | 13,636 |
| 26 | 965 | 38 | 4276 | 313 | 2231 | 407 | 6303 | 952 | 15,485 |
| 27 | 1716 | 62 | 6474 | 595 | 1824 | 355 | 4578 | 833 | 16,437 |
| 28 | 2315 | 98 | 7740 | 1051 | 1524 | 377 | 3598 | 795 | 17,498 |
| 29 | 2959 | 90 | 8832 | 1606 | 1395 | 379 | 2791 | 818 | 18,870 |
| 30 | 3289 | 140 | 9136 | 2236 | 1192 | 356 | 2313 | 791 | 19,453 |
| 31 | 3284 | 165 | 8619 | 2668 | 1002 | 359 | 1828 | 780 | 18,705 |
| 32 | 3178 | 188 | 7668 | 3066 | 851 | 300 | 1445 | 755 | 17,451 |
| 33 | 3344 | 187 | 7026 | 3437 | 795 | 327 | 1206 | 731 | 17,053 |

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 34 | 3514 | 191 | 6755 | 3689 | 645 | 310 | 1098 | 771 | 16,973 |
| 35 | 3901 | 223 | 6640 | 4121 | 639 | 314 | 995 | 914 | 17,747 |
| 36 | 3895 | 223 | 6451 | 4192 | 620 | 299 | 933 | 989 | 17,602 |
| 37 | 4187 | 260 | 6399 | 4158 | 607 | 320 | 949 | 1115 | 17,995 |
| 38 | 4381 | 308 | 6168 | 4110 | 562 | 323 | 947 | 1197 | 17,996 |
| 39 | 4263 | 297 | 5793 | 3818 | 587 | 375 | 979 | 1342 | 17,454 |
| 40 | 4129 | 306 | 5579 | 3652 | 519 | 330 | 952 | 1328 | 16,795 |
| 41 | 4020 | 321 | 5618 | 3503 | 521 | 349 | 1046 | 1322 | 16,700 |
| 42 | 3913 | 363 | 5650 | 3248 | 487 | 388 | 939 | 1419 | 16,407 |
| 43 | 3861 | 371 | 6179 | 3403 | 465 | 359 | 935 | 1425 | 16,998 |
| 44 | 4034 | 383 | 6501 | 3339 | 464 | 373 | 954 | 1309 | 17,357 |
| 45 | 4285 | 443 | 6596 | 3399 | 444 | 418 | 849 | 1435 | 17,869 |
| 46 | 4101 | 442 | 6619 | 3224 | 453 | 373 | 801 | 1228 | 17,241 |
| 47 | 4044 | 434 | 6491 | 3004 | 402 | 373 | 740 | 1114 | 16,602 |
| 48 | 4063 | 445 | 6632 | 2893 | 373 | 377 | 616 | 1082 | 16,481 |
| 49 | 4094 | 409 | 6981 | 2948 | 326 | 323 | 544 | 991 | 16,616 |
| 50 | 4183 | 435 | 7391 | 2885 | 335 | 323 | 472 | 966 | 16,990 |
| 51 | 4364 | 488 | 7817 | 3151 | 285 | 341 | 390 | 892 | 17,728 |
| 52 | 4642 | 492 | 8469 | 3475 | 236 | 304 | 331 | 787 | 18,736 |
| 53 | 4679 | 569 | 8822 | 3653 | 225 | 313 | 270 | 805 | 19,336 |
| 54 | 5009 | 652 | 8941 | 3806 | 199 | 267 | 233 | 663 | 19,770 |
| 55 | 4951 | 713 | 8995 | 3792 | 184 | 285 | 208 | 663 | 19,791 |
| 56 | 5122 | 854 | 8682 | 4065 | 175 | 246 | 142 | £600 | 19,886 |
| 57 | 4672 | 924 | 7747 | 4191 | 142 | 249 | 121 | 509 | 18,555 |
| 58 | 4192 | 1032 | 6762 | 4100 | 89 | 232 | 90 | 488 | 16,985 |
| 59 | 3625 | 1100 | 5510 | 3857 | 99 | 245 | £85 | 418 | 14,939 |
| 60% | 2398 | 1077 | 3274 | 2893 | £80 | 248 | 46 | 372 | 10,388 |
| 61 | 1594 | 989 | 1733 | 2323 | 64 | 237 | 34 | 315 | 7289 |
| 62 | 1269 | 1006 | 1210 | 1882 | 63 | 265 | 30 | 280 | 6005 |
| 63 | 913 | 815 | 746 | 1476 | 34 | 269 | 16. | 308 | 4577 |
| 64 | 492 | 539 | 395 | 822 | 26 | 196 | 16. | 197 | 2683 |
| 65 | £195 | 398 | 206 | 694 | 16. | 138 | 10 | 193 | 1850 |
| 66 | 74 | 274 | 76 | 445 | 8 | 133 | 10 | 201 | 1221 |
| 67 | 55 | 182 | 58 | 285 | 4 | 97 | 8 | 200 | 889 |
| 68 | 27 | 87 | 22 | 158 | 5 | £80 | 5 | 135 | 519 |
| 69 | 16. | 75 | 18. | 114 | 5 | 64 | 2 | 114 | 408 |
| 70 | 0 | 57 | 9 | 72 | 4 | 42 | 5 | 76 | 265 |
| 71 | 1 | 14 | 1 | 22 | 1 | 13 | 0 | 28 | £80 |
| 72 | 0 | 5 | 0 | 9 | 1 | 12 | 0 | 20. | 47 |
| 73 | 0 | 4 | 0 | 6 | 0 | 9 | 0 | 14 | 33 |
| 74 | 0 | 1 | 0 | 3 | 0 | 8 | 0 | 14 | 26 |
| 75 + | 0 | 1 | 0 | 1 | 1 | 9 | 0 | 21 | 33 |
| CYFANSWM | 138,583 | 19,189 | 249,652 | 119,985 | 27,128 | 14,575 | 64,677 | 38,628 | 672,417 |

ATODIAD D - ASESIAD EFFAITH CYDRADDOLDEB

Mae'r Llywodraeth yn ystyried ei ddyletswydd i ystyried effeithiau ar gydraddoldeb yn ddifrifol iawn, ac mae hyn yn ymroddiad a ategwyd gan Brif Ysgrifennydd y Trysorlys yn ei lythyr dyddiedig 15 Chwefror 2012 at Ysgrifennydd Cyffredinol y TUC. Mae'r Llywodraeth wedi cadarnhau y bydd yr Adrannau cyfrifol yn cynnal Asesiadau Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer pob un o'r cynlluniau pensiwn gwasanaeth cyhoeddus diwygiedig cyn i'r ddeddfwriaeth sy'n gorchymyn y cynlluniau gael ei gyflwyno. Mae'r Llywodraeth wedi ymroi i gynnal asesiadau sy'n dryloyw ac mor gadarn ag y bo modd fel rhan o broses ddilys a difrifol i nodi a rhoi ystyriaeth briodol i effeithiau ar gydraddoldeb, fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Bu cyfarfod gan weithgor ar Ddydd Mawrth 6 Mawrth i drafod yr ymagwedd cyffredinol ar gyfer Asesiadau Effaith Cydraddoldeb, gan sefydlu egwyddorion ac amserlenni ar gyfer sut y dylid eu cynnal. Cadeiriwyd y grŵp gan Swyddfa'r Cabinet ac yn bresennol roedd swyddogion o'r Trysorlys, Swyddfa Cydraddoldeb y Llywodraeth a phrif swyddogion adrannol ar gyfer y tri chynllun mawr heb eu hariannu. Cynrychiolwyd yr Undebau gan gyfranogwyr tîm negydu'r TUC.

Yn dilyn y drafodaeth ar 6 Mawrth, cynigiwyd y dylid mabwysiadu’r ymagwedd ganlynol:

Bydd yr asesiadau effaith ar gydraddoldeb yn cael eu cynnal gan yr adrannau nawdd perthnasol. Yn ogystal, bydd y Llywodraeth yn cynnal dadansoddiad canolog er mwyn cymharu ac asesu effaith ar draws pob un o'r cynlluniau.

Mae'r amserlen ar gyfer yr asesiad yn gyfyng, a rhaid cwblhau'r broses mewn da bryd i ganiatáu i'r dadansoddiad ddylanwadu ar wneud penderfyniadau a diwedd y broses o ddatblygu polisi, cyn cyflwyno deddfwriaeth. Bydd yr adrannau, felly, yn anelu at gwblhau'r asesiadau erbyn diwedd Mai 2012. Bydd y Llywodraeth yn cwblhau'r dadansoddiad canolog dros y pedair wythnos ganlynol. Bydd y gweithgor canolog yn cyfarfod ym mis Mehefin i drafod y dadansoddiad, ac yn ystyried unrhyw gamau pellach.

Dylid cyflawni’r Asesiadau Effaith Cydraddoldeb mewn modd sy'n arddangos cydymffurfiad â dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus a chanllawiau arfer da gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol. Rhaid i'r AEC asesu effaith y diwygiadau ar bob un o'r meysydd cydraddoldeb perthnasol.

Yn unol â chanllawiau'r CCHD, dylai'r broses o gynnal yr Asesiadau Effaith Cydraddoldeb ystyried:

- Beth yw casgliadau allweddol yr ymgysylltiad? h.y. yn seiliedig ar y dystiolaeth a gasglwyd, beth, os o gwbl, yw effeithiau cadarnhaol a negyddol y newidiadau a ellir eu hadnabod ar gyfer pobl ag unrhyw nodweddion penodol?
- Os bydd y polisi yn cael effeithiau negyddol ar bobl sydd â nodweddion penodol, pa gamau y gellir eu cymryd i liniaru'r effeithiau hyn?
- A oes unrhyw ran o'r polisi yn gwahaniaethu'n anghyfreithlon?
- A yw'r polisi yn colli cyfleoedd i hyrwyddo cyfle cyfartal a meithrin cysylltiadau da?

Dylid cynnwys rhanddeiliaid, gan gynnwys yr undebau perthnasol, a’u gwneud yn rhan o'r ymgynghoriad o'r cychwyn cyntaf, gan gynnwys ar gwmpas a methodoleg yr asesiad. Bydd Undebau yn cael y cyfle i gyflwyno tystiolaeth a barn am yr effaith ar gydraddoldeb a bydd y Llywodraeth yn ceisio adborth ar y dadansoddiad a'r rhesymu yn ystod y broses ac yn rhannu canlyniadau'r AEC gyda'r undebau. Dylai adrannau hefyd gael mynediad at gymorth gan SCLl / EHRC wrth gynnal yr asesiadau.

Yn dilyn cwblhau'r Asesiadau Effaith Cydraddoldeb, wedi sicrhau sylw priodol i'w casgliadau, bydd y Llywodraeth yn ystyried pa gamau lliniarol pellach fydd yn angenrheidiol yn unol â dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus. Bydd y camau nesaf, gan gynnwys unrhyw gamau lliniarol, yn cael eu trafod gyda'r undebau, cyn cyflwyno deddfwriaeth.